

Gofalwn.cymru

Canllawiau brand

2023

Cynnwys

Cafodd y canllawiau canlynol eu creu er mwyn eich helpu chi i gyflwyno brand Gofalwn Cymru mewn ffordd adnabyddadwy a chyson.

3. Tôn y llais

4. Tôn y llais
5. Ein cymeriad
6. Ein personoliaeth
7. Ysgrifennu cynnwys
8. Ysgrifennu ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
9. Canllaw arddull

10. Canllawiau'r Gymraeg

13. Ein logo

14. Enghreifftiau o'r prif logo a logos eilaidd
15. Arwynebedd diogel a maint
16. Pethau i'w gwneud a'u hosgoi gyda logo
17. Rhoi logos ar luniau

18. Ein ffont

19. Ein prif ffurfdeip
20. Ein ffurfdeip eilaidd

22. Ein lliwiau

25. Ein lluniau

26. Defnydd o luniau
27. Testun ar luniau
28. Rhannu lluniau

29. Defnyddio ein brand

30. Defnyddio dwyieithrwydd
31. Defnyddio mewn fideo
32. Deunyddiau cyhoeddusrwydd
33. Y cyfryngau cymdeithasol

Tôn y llais

Tôn y llais

Mae naws neu dôn y llais yn allweddol i gyflawni ymgyrch Gofalwn Cymru yn llwyddiannus. Mae'n cwmpasu ac yn mynegi personoliaeth a gwerthoedd craidd y brand gan sicrhau ei fod yn ennyn diddordeb ac yn onest yr un pryd. Mae agwedd gyson at dôn yn hollbwysig, yn enwedig pan mae sawl rhanddeiliad yn rhan o'r broses.

Mae tôn yn bwysig i ni oherwydd mae'n:

- ein gwneud ni'n ddynol
- ei gwneud hi'n haws i bobl adnabod, deall a chysylltu
- dangos hunaniaeth, personoliaeth ac uniondeb.

Mae tôn ymgyrchoedd Gofalwn Cymru:

1. yn real
2. yn ddynol
3. yn addysgol
4. yn ysbrydoledig
5. yn ennyn diddordeb
6. yn barchus.

Ein cymeriad

Dylai negeseuon wneud y canlynol bob amser:

- mynd yn syth at y pwynt. Dywedwch wrth bobl beth maen nhw am ei wybod, nid beth rydych chi eisiau ei ddweud wrthyn nhw.
- bod yn gryno a syml fel bod pawb yn gallu deall.
- osgoi jargon, gan gofio bod yr ymgyrch hon wedi'i hanelu at rai nad ydynt yn gweithio yn y sector ar hyn o bryd.
- defnyddio arddull fwy llafar – darllenwch y neges yn uchel a phenderfynu a yw'n gwneud synnwyr.
- gofynnwch y cwestiwn bob amser – pwy yw'r gynulleidfa? Â phwy dwi'n siarad?

- 1 Mae lluniau, dyfyniadau a straeon wedi'u cyfleu gan bobl go iawn sy'n gweithio yn y sector, lle bo hynny'n bosib
- 2 Mae ein straeon bob amser yn adroddiad gonest o sut brofiad yw gweithio yn y sector, gan fod yn gyfeillgar a chynhwysol
- 3 Lle bo modd, mae'n darparu gwybodaeth am amryw o rolau sydd ar gael yng Nghymru
- 4 Bob amser yn ceisio darparu enghreifftiau o sut mae gweithio i'r sector yn gallu dod â boddhad a bod yn galonogol heb guddio'r ffaith pa mor heriol y gall fod hefyd
- 5 Dylai'r iaith a ddefnyddir fod yn ysbrydoledig
- 6 Lle bo modd, dylem annog rhai sydd eisoes yn gweithio i'r sector i rannu eu straeon a'u profiadau eu hunain ag eraill
- 7 Dylai pob llun o 'arwr' fod o ansawdd da ac yn cynrychioli'r cyswllt emosiynol rhwng y gofalwr a'r defnyddiwr gwasanaethau, os oes modd
- 8 Bydd pob llun o arwr yr ymgyrch yn cael ei ddewis a dethol yn ofalus, a byddwn yn gofyn am ganiatâd llawn cyn eu defnyddio fel rhan o'r ymgyrch

Ein personoliaeth

Mae ein personoliaeth yn cynnwys pum nodwedd allweddol: cadarnhaol, dilys, tosturiol, gonest a chynhwysol.

Dyw pobl ddim bob amser yn cofio'r hyn rydych chi'n ddweud neu beth rydych chi'n ei wneud, ond byddan nhw wastad yn cofio sut oeddech chi'n gwneud iddyn nhw deimlo.

1. Cadarnhaol
2. Dilys
3. Tosturiol
4. Gonest
5. Cynhwysol

Ysgrifennu cynnwys

- 1 Defnyddiwch benawdau ar gyfer adrannau gwahanol, yn ogystal ag isbenawdau os oes angen.
- 2 Esboniwch sut a pham.
- 3 Pwysleisiwch eiriau allweddol.
- 4 Defnyddiwch frawddegau byrion.
- 5 Crëwch restrau fel hon.
- 6 Ysgrifennwch baragraffau byrion gydag un pwynt yr un.
- 7 Rhowch ddolenni ar linellau ar wahân.
- 8 Defnyddiwch iaith syml – nid jargon.
- 9 Mae cynnwys ar-lein da yn hawdd i'w ddarllen a'i ddeall.
- 10 Mae'n helpu pobl i ddod o hyd i'r hyn maen nhw ei angen.
- 11 Pennawd – y peth pwysicaf yn gyntaf.
- 12 Defnyddiwch Gymraeg clir / Plain English
- 13 Peidiwch â defnyddio emojis (oni bai bod hynny ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol).
- 14 Peidiwch â defnyddio ebychnodau.

Ysgrifennu ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Mae ysgrifennu ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol fel ysgrifennu ar gyfer gwefannau. Mae'n rhoi cyfle i ni ryngweithio â phobl mewn amser real.

- 1 Cadwch yn gryno
- 2 Defnyddiwch iaith syml, hawdd ei deall
- 3 Os ydych dan unrhyw amheuaeth, peidiwch â'i bostio.
- 4 Gwiriwch pa mor sensitif yw'r neges cyn pwyso 'anfon'
- 5 Mae'n barhaol – unwaith mae arlein, mae yna i aros
- 6 Byddwch yn gywir – gan wirio sillafu, gramadeg, data, dolenni a lluniau
- 7 Defnyddiwch dôn llais yr ymgyrch
- 8 Byddwch yn barod am gwestiynau a sylwadau
- 9 Beth yw'r maes gweithredu?
- 10 Sicrhewch ei fod yn fesuradwy os oes modd.
- 11 Sut allwch chi addasu'r cynnwys ar gyfer sianeli gwahanol a chynulleidfaoedd gwahanol?

Canllaw arddull

Mae hwn yn cwmpasu gramadeg, iaith, fformadu a thôn. Mae'n helpu er mwyn bod yn gyson.

Cynnwys hawdd ei sganio

Rydyn ni'n creu cynnwys hawdd ei ddarllen a'i ddeall trwy'r canlynol:

- defnyddio penawdau rheolaidd, gwybodus
- creu rhestrau
- ysgrifennu paragraffau byrion
- rhoi dolenni ar linellau ar wahân.

Byrfoddau

Dim ond ar gyfer teitlau fel Mr, Mrs a Dr.

Acronymau

Ysgrifennwch yn llawn y tro cyntaf a rhoi'r acronym mewn cromfachau wedyn, yna defnyddio'r acronym o hynny ymlaen. Dyw acronymau lluosog ddim yn cynnwys collnod e.e. TGAU

Etc

Peidiwch â'i ddefnyddio.

Byddwch yn bositif

Mae'n swnio'n fwy cyfeillgar ac yn fwy effeithiol fel arfer.

Defnyddiwch 'chi' neu 'eich'

Lle bo modd.

Byddwch yn niwtral o ran rhywedd

Defnyddiwch 'nhw' ac 'eu' lle bo modd.

Byddwch yn weithredol

Dywedwch 'Gallwch chi' yn hytrach na 'Efallai y bydd modd i chi'.

Brawddegau

Cadwch nhw'n gryno. Os oes mwy na 25 gair, beth am rannu'r frawddeg. Cadwch at un pwynt fesul brawddeg. Mae'n

iawn defnyddio geiriau fel 'ac', 'ond' a 'felly' ar ddechrau brawddeg, gan eu bod nhw'n swnio'n gyfeillgar.

Defnyddiwch 'i'

Yn hytrach na llinell doriad neu slaes mewn dyddiadau. Mae'n gynt i ddarllen 'blwyddyn dreth 2013 i 2014'.

Defnyddiwch a/ac

Yn lle '&' oni bai ei fod yn rhan o enw

Sillafu

Cofiwch am ddyblu'r 'n' ac ati yn y Gymraeg. Ac yn Saesneg, byddwch yn ofalus gyda geiriau sy'n cynnwys 'ize' – mae'r cyfrifiadur yn eu newid ar y slei weithiau. 'Organise' nid 'Organize'.

Canllawiau'r Gymraeg

Dylai bod cydbwysedd cyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ni ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol mewn unrhyw ffordd.



Lleoli

Mewn pob cyfrwng creadigol, dylai'r Gymraeg ymddangos yn gyntaf ond dylid defnyddio'r ddwy iaith yn gyfartal lle bo modd.



Negeseuon

Mae'n bwysig bod y gynulleidfa'n gallu teimlo bod unrhyw gynnwys neu neges creadigol yn berthnasol iddyn nhw, felly dylid rhoi pwyslais ar ddefnyddio tafodieithoedd amrywiol y Gogledd, y Canolbarth a'r De mewn unrhyw neges lle bo modd.



Fideos



Wrth greu cynnwys ar gyfer fideo, dylech ystyried creu fersiwn Cymraeg a Saesneg, neu fideo dwyieithog yn dibynnu ar fanyleb y sianel. Bydd pob astudiaeth achos a gynhyrchir ar gyfer yr ymgyrch hon yn cynnwys cynrychiolaeth gyfartal o'r ddwy iaith gan gynnwys ffilmiau dwyieithog, ffilm Gymraeg yn unig a ffilm Saesneg yn unig gydag isdeitlau perthnasol.

Defnyddio'r ddwy iaith

Wrth ddefnyddio mwy nag un iaith, dylai'r naill a'r llall fod yr un mor hawdd a hwylus i'w darllen. Hefyd, dylai'r ddwy iaith fod yn hygyrch ar un llinell edrych lle bo modd.

Mae'n bwysig nad yw'r ddwy iaith yn cael eu cymysgu mewn ffordd anghyson. Gofalwch fod y ddwy iaith ar wahân ac yn hawdd i'w darllen.

Mae sawl ffordd safonol ac argymelliedig o osod testunau dwyieithog, fesul bloc, mewn colofnau cyfatebol, neu top a gwaelod.



Ein
logo

Prif logo

Gallwch ddefnyddio'r logo dewisol ar gyfer pob math o waith argraffu gan gynnwys yr holl gyhoeddiadau print, hysbysebion, hysbysfyrddau, posteri, hysbyslenni a phecynnau cynhyrchion.

Enghreifftiau o logos eilaidd

Mae modd defnyddio'r logos hyn ar gyfer pob gwaith sgrin, gan gynnwys gwefannau, baneri, cyflwyniadau a'r cyfryngau cymdeithasol.

Gofalwn | **WeCare**
.cymru | .wales

Prif logo

Gofalwn | **WeCare**
.cymru | .wales

Logo eilaidd ar gyfer gofal cymdeithasol

Gofalwn | **WeCare**
.cymru | .wales

Logo eilaidd ar gyfer gofal plant

Arwynebedd a maint diogel

Mae'r arwynebedd diogel yn cael ei ddefnyddio i atal gosod elfennau eraill ger y logo a allai amharu ar ganfyddiad o'r arwydd. Y modiwl a ddefnyddir i bennu'r arwynebedd diogel o amgylch y logo yw'r lythyren 'G'.

Rhaid i'r logo fod yn glir a darllenadwy, a'r logo lleiaf y dylid ei ddefnyddio yw un sy'n mesur 124 x 30 px.



Pethau i'w gwneud a'u hosgoi gyda'r logo

Gofalwn | **WeCare**
.cymru | .wales

Prif logo
Defnyddiwch liwiau'r prif logo lle bo'n briodol.

Addasiadau
Peidiwch ag ymestyn y logo.

Gofalwn | **WeCare**
.cymru | .wales

Gofalwn | **WeCare**
.cymru | .wales

Delweddau
Peidiwch â defnyddio logo negatif ar gefndir lluniau.

Cadwch yn syth bob amser
Peidiwch â throï'r log.

Gofalwn | **WeCare**
.cymru | .wales

Gofalwn | **WeCare**
.cymru | .wales

Gwneud newidiadau
Peidiwch ag ychwanegu addurniadau at y logo.


Gofalwn | **WeCare**
.cymru | .wales

Rhoi logos ar luniau

Ni ddylai logo Gofalwn Cymru gael ei altro, ei addasu, ei newid neu ei deilwra mewn unrhyw ffordd. Mae'n elfen ganolog o'n fframwaith hunaniaeth weledol.

Y gornel isaf ar y dde ddylai fod yn brif leoliad ar gyfer y logo. Efallai nad yw hyn bob amser yn bosib – os felly, gallwch roi'r logo ar y gornel uchaf ar y dde.

Dylai'r logo bob amser sefyll yn wastad ar waelod y dudalen gydag o leiaf gofod maint 'G' o amgylch ochr chwith, top a dde'r logo.



Ein ffont

Ein prif ffurfdeip

'Haffer' yw ein prif ffurfdeip. Mae Haffer ar gael mewn pwysau Rheolaidd a Lled-drwm.

Dylech ddefnyddio Haffer Regular ar gyfer testun pob corff.

Dylid defnyddio ffont Haffer Semi-bold i bwysleisio geiriau, ar gyfer teitlau a phenawdau ac unrhyw wybodaeth amlwg arall.

Hygyrchedd testun

Mae safonau WCAG AA yn argymhell y dylai testun arferol fod o leiaf 12pt. Dylai pob cymhareb gyferbynnu gyflawni ar y lefel hon.

Aa

ABCDEFGHIJKLMNOPQRSTUVWXYZ

abcdefghijklmnopqrstuvwxyz

0123456789(.,<>/"?'#£@%&)

Ein ffurfdeip eilaidd

Tahoma yw ei hail ffurfdeip
ddewisol, i'w ddefnyddio pan
mae angen ffont cyffredinol ar
gyfer dogfennau a chyflwyniadau
digidol.

Aa

ABCDEFGHIJKLMNOPQRSTUVWXYZ

abcdefghijklmnopqrstuvwxyz

0123456789(.,<>/'"?'#£@%&)

a b c d e f g

h **i** j k l m

n o p q r s t

u **v** w x y z

Ein

Iliwiau


Ein lliwiau

Glas tywyll a gwyrddlas yw ein prif liwiau. Dylid defnyddio'r rhain ar gyfer pob deunydd generig. Hefyd, gallwch ddefnyddio arlliwiau gwahanol o'r ddau liw at ddibenion addurnol.

Mae modd defnyddio'r lliw pinc ar y cyd â'r glas tywyll i greu deunyddiau gofal cymdeithasol.

Gallwch ddefnyddio'r lliw melyn ochr yn ochr â'r glas tywyll i greu deunyddiau gofal plant.

Glas tywyll




Pantone 289 C

Glas




Pantone 2197 C

Pinc – Gofal cymdeithasol



Pantone 250 C

Melyn – Gofal plant



Pantone 2002 C

Ein Iliwiau

Ein cyfuniadau Iliwiau gwahanol.

Wrth ddefnyddio testun ar floc Iliw, cofiwch am y cyfuniadau Iliwiau hyn bob amser.

Niwtral

Gofal cymdeithasol

Gofal plant

Ein

lluniau

Defnyddio Iluniau

Pan rydyn ni'n defnyddio ffotograffau, dylai lluniau fod yn gynnes ac yn real. Dylai'r lluniau naill ai ddangos pobl ar ganol sgwrs neu ar ganol gweithredu.

Rhestr wirio lluniau Gofalwn Cymru:

- Ydy'r llun yn teimlo'n naturiol ac wedi'i dynnu mewn lleoliad go iawn?
- Ydy'r llun mewn lliw llawn a heb ei drin o gwbl?
- Ydy'r llun yn cynnwys mwy nag un person?
- Ydy'r llun yn teimlo'n unigryw ac nid fel llun stoc o rywbeth/rhywun?
- Ydy pobl yn y llun yn sgwrsio â'i gilydd?
- Ydy'r bobl yn llun ynymddangos yn rhai y gallwch droi atynt?



Gofalwn .cymru WeCare .wales



Gofalwn .cymru WeCare .wales



“

Ezelina Dacruz

Nyrs Arwain Clinigol

“Ble bynnag ydych chi yn y byd, mae sgwrsio â rhywun yn eu hiaith yn gwneud iddyn nhw deimlo eich bod chi'n rhan ohonyn nhw. Mae'n creu cysylltiad, ac yn aml fe welwch chi y byddan nhw'n agor allan i chi mwy. Does dim angen i chi wybod llawer – gall fod yn frawddegau syml. Mae ychydig yn gallu cyflawni llawer.”

Cymraeg

Gofalwn .cymru WeCare .wales

Testun ar luniau

Dylai testun ar luniau fod o fewn tag lliw bob amser, a hynny ar y top ac i'r chwith lle bo'n bosib.

Yr unig eithriad i hyn yw enwau a swyddi'r sawl sydd yn y llun. Dylid ystyried lluniau yn ofalus iawn i sicrhau bod pob gwybodaeth yn gywir a chyfreithlon.

Rhaid i bob tag fod â chysgod disgyn o 35% didraidd du, ar 135°.

Ddim eich cyfarfod tîm arferol

Fain o swyddi sy'n rhoi'r cyfle i chi lywio bywyd person ifanc?

Archwiliwch eich creadigrwydd ac ystyriwch yrfa'n gweithio gyda phlant. Dysgwch fwy yn Gofalwn.Cymru

Kirsty Crowe
Cynorthwydd Meithrin
Nursery Assistant



Gofalwn
.cymru

WeCare
.wales

Rhannu Iluniau

Wrth rannu Iluniau wedi'u comisiynu gan Gofalwn Cymru â phartneriaid, cofiwch roi logo Gofalwn Cymru ar waelod y ffotograff.

Dylai'r logo orwedd ar ochr dde isa'r ffrâm.

Os nad yw gwaelod y ffrâm yn addas am ba bynnag reswm, dylai'r logo fod ar yr ochr dde uchaf.



Gofalwn
.cymru

WeCare
.wales

Defnyddio ein brand

Defnyddio mewn fideo

Bydd y fframiau pen yn mabwysiadu'r arddull lliwiau perthnasol a'r testun yn y canol, gyda'r logo ar ochr dde isaf y sgrin.



Deunyddiau cyhoeddusrwydd

Wrth frandio deunyddiau ar gyfer cyhoeddusrwydd, defnyddiwch y cyfuniad lliwiau niwtral.

Os ydych chi'n defnyddio testun ar ddeunyddiau brand, gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n ddwyieithog.

Lle bo modd, ni ddylai nwyddau gynnwys unrhyw blastig.

Ymbarel



Beiro



Sticeri


Crys-T



Bag -
tu ôl



Bag -
tu blaen



Y cyfryngau cymdeithasol

Mae negeseuon y cyfryngau cymdeithasol yn gallu bod fymryn yn fwy creadigol a hwyliog, ond:

- dylai'r logo fod ar ochr dde isaf y celfwaith bob amser
- dylai'r lliwiau ddilyn rheolau blaenorol y canllawiau hyn
- dylech ddefnyddio ffont Haffer bob tro
- wrth defnyddio dwy iaith mewn dau bostiad ar wahân, dylech fewnosod y lliwiau rhwng ieithoedd.

Meddalwedd Adobe yw'r prif adnodd ar gyfer creu deunyddiau, a Canva yw'r ail adnodd.



Diolch

Wrth greu deunyddiau ar gyfer Gofalwn Cymru, gwnewch yn siŵr bod popeth yn cael ei gymeradwyo gan Swyddog Rhaglen Gofalwn Cymru.

Os ydych chi angen cymorth ychwanegol, ebostiwch contact@wecare.wales

 www.Gofalwn.Cymru

 [@GofalwnCymru](https://www.facebook.com/GofalwnCymru)

 [@GofalwnCymru](https://twitter.com/GofalwnCymru)

 [@GofalwnCymruCares](https://www.instagram.com/GofalwnCymruCares)

 [@gofalwn-cymru-wecare-wales](https://www.linkedin.com/company/gofalwn-cymru-wecare-wales)